# SWYDD-DDISGRIFIAD

## 1. MANYLION Y SWYDD

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD** | Gofalwr Cymunedol |
| **YN ATEBOL I'R** | Rheolwr Cymdogol |
| **YN GYFRIFOL AM** | Dim |
| **TÎM** | Gwasanaethau Cymdogol |
| **LLEOLIAD** | Gwahanol Gymdogaethau |
| **MANYLION CYFLOG** | £8.45 yr awr |

## 2. PWRPAS

Darparu gwasanaeth gofalwr cymunedol fydd yn cynnwys mannau comunol, mannau casglu sbwriel a'r mannau o amgylch eiddo ac adeiladau lletya ledled yr ardal mae Cartrefi Conwy yn gweithredu ynddi a darparu presenoldeb cyfundrefnol i sicrhau diogelwch a thawelwch meddwl cyffredinol ar gyfer trigolion.

## 3. DIMENSIYNAU (Graddfa ac Amrywiaeth y Rôl)

Bydd y swydd yn cynnwys gweithio mewn nifer o adeiladau a blociau o fflatiau, gan gynnwys mannau o'u hamgylch fel gerddi, llwybrau, meysydd parcio, mannau storio a lolfeydd comunol.
Mae proffil nodweddiadol y cleientiaid a ddarperir y gwasanaeth hwn ar eu cyfer yn cynnwys teuluoedd, deiliadaethau sengl, yr henoed a thenantiaid diamddiffyn.

## 4. PRIF GYFRIFOLDEBAU

Gwirio'r adeiladau a'r mannau o'u hamgylch am unrhyw broblemau gweladwy er enghraifft goleuadau diffygiol, peryglon posibl (iechyd a diogelwch) a thipio anghyfreithlon, er mwyn sicrhau rhoddir gwybod am unrhyw broblemau i'r adran berthnasol a'r Cydlynydd Cymdogol.

Gwirio camerâu TCC os yw hynny'n berthnasol am unrhyw ddigwyddiadau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, fandaliaeth y rhoddwyd gwybod amdanynt a gwneud gwiriad cynnal er mwyn sicrhau bod y camerâu yn gweithio'n iawn.

Glanhau pob man cymunedol yn gynhwysfawr gan gynnwys grisiau a mannau cadw sbwriel gan ystyried iechyd a diogelwch er mwyn cynnal amgylchedd byw glân a diogel ar gyfer trigolion.

Cynnal profion o systemau larwm tân, ailosod a chlirio systemau larwm, sicrhau bod pob system larwm tân yn gweithio'n iawn a chadw cofnodion a gofyn am gymryd camau adfer yn unol â hynny.

Gwneud gwaith cynnal gerddi mewn mannau comunol lle bo angen, er enghraifft torri gwair, strimio a chwynnu yn ôl yr angen.

Sicrhau bod biniau ar olwynion yn barod ar gyfer y gwasanaeth casglu sbwriel a'u dychwelyd i'r mannau cadw biniau yn ôl yr angen.

Cysylltu â thenantiaid ynglŷn ag amodau tenantiaethau a materion eraill a allai gynnwys pethau fel tipio anghyfreithlon, ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithredu fel pwynt cyswllt rhwng asiantaethau eraill neu dimau o fewn Cartrefi Conwy pan fo angen.

## 5. CYFRIFOLDEBAU CORFFORAETHOL

Rhoi cefnogaeth weithredol i'r ddarpariaeth gyffredinol o amcanion Cartrefi Conwy i ddarparu gwasanaeth rhagorol, arloesol sy'n wirioneddol yn canolbwyntio ar gwsmeriaid.

Cyfrannu at weithgareddau gweithredu cymunedol a chyfranogiad tenantiaid yn ôl yr angen.

Fel cynrychiolydd Cartrefi Conwy, hyrwyddo a chynnal agwedd a delwedd gadarnhaol bob amser.

Hyrwyddo gwerthoedd Cartrefi Conwy yn gadarnhaol gan herio dulliau traddodiadol o weithio, ymddygiad neu sylwadau sy'n groes i hynny.

Sicrhau y gofynnir yn weithredol am ymateb er mwyn cyfarwyddo gwelliannau gwasanaeth ar gyfer cwsmeriaid a datblygu dulliau mwy effeithlon ac effeithiol o weithio.

Sicrhau cydymffurfiad gyda Rheolau Sefydlog, polisïau a gweithdrefnau Cartrefi Conwy, safonau cywirdeb mewn perthynas â statws elusennol y sefydliad a Rheoliadau Llywodraeth Cymru.

Cefnogi datblygu, adolygu a gweithredu polisïau a threfnau, yn enwedig:

- Mentrau iechyd, diogelwch a lles
- Egwyddorion y gymdeithas ynglŷn â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Mentrau rheoli risg
- Arferion rheoli perfformiad

Defnyddio technoleg a systemau TGC yn effeithiol trwy ddatblygu sgiliau priodol, mabwysiadu prosesau busnes effeithlon, a chadw data yn ddiogel a chywir.

Cydweithio mewn gweithgorau traws weithredol yn ôl yr angen..

## 6. CYD-DESTUN GWAITH

Gweithredir y rôl hon yng nghymdogaethau Cartrefi Conwy, gyda pheth angen am deithio yn lleol o fewn yr ardal mae Cartrefi Conwy yn gweithredu ynddi dan do ac yn yr awyr agored ymhob tywydd. Mae'r defnydd o wahanol offer a defnyddiau glanhau yn angenrheidiol i lanhau yn effeithiol; gall hyn gynnwys clirio gwastraff dynol a gwastraff anifeiliaid. Hefyd, mae'r defnydd o offer garddio priodol yn angenrheidiol er enghraifft peiriannau torri gwair a pheiriannau torri gwrych.

## 7. YMREOLAETH A GWNEUD PENDERFYNIADAU

Bydd gennych beth rhyddid i gynllunio trefn y gweithgareddau o fewn y diwrnod yn unol â blaenoriaethau.

Disgwylir byddwch chi'n cydymffurfio â phob polisi a threfn a rheoliadau iechyd a diogelwch a disgwylir byddwch chi'n cyfeirio at y Rheolwr Cymdogol i gael cyngor ac arweiniad ynglŷn â gweithredu'r rhain yn gyson a diogel a byddwch fel arfer yn cyfeirio materion sydd heb eu datrys gyda thenantiaid (fel torri tenantiaeth) i'r Cydlynydd Cymdogol.

## 8. CYFATHREBU (y prif gyfathrebu o fewn y swydd)

| | |
|---|---|
| **MEWNOL** | Wythnosol – gyda'r Cydlynydd Cymdogol i drafod unrhyw broblemau sydd wedi'u nodi yn y gymdogaeth a chyda'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid i roi gwybod am waith trwsio. Fel arfer cyfathrebir ar lafar naill ai yn bersonol neu dros y ffôn. |
| **ALLANOL** | Dyddiol - yn bersonol gyda thenantiaid neu drigolion yn y gymuned i ddelio ag ymholiadau a neu i orfodi amodau tenantiaethau. Yn llai aml gyda sefydliadau eraill fel yr Awdurdod Lleol ynglŷn â chasgliadau sbwriel sydd heb eu gwneud neu sy'n hwyr a thipio anghyfreithlon neu'r Heddlu i gael mynediad at TCC neu gyda'r cwmnïau larwm Tân neu TCC i drefnu gwaith cynnal neu i roi gwybod am ddiffygion. |

## 9. MEYSYDD CYMHLETHDOD

Gall cwrdd â disgwyliadau tenantiaid a thrigolion olygu peth cymhlethdod ar gyfer y swydd hon oherwydd nid yw eu disgwyliadau bob amser yn unol ag adnoddau a galluoedd Cartrefi Conwy.

## 10. CYTUNDEB

| | |
|---|---|
| **Llofnod Deiliad y Swydd:** | **Dyddiad:** |
| **Llofnod y Rheolwr Atebol:** | **Dyddiad:** |

# Manylion am yr Unigolyn
# GOFALWR CYMUNEDOL

**Bydd y Gofalwr Cymunedol yn ddisgybledig ac yn gallu cynnal safon gwaith yn gyson i'n cymunedau. Bydd yn gallu delio a thasgau arferol a gweithio o fewn canllawiau penodol. Bydd yn gweithio'n galed, yn drefnus ac yn gyson i sicrhau fod tasgau'n cael eu cyflawni. Bydd yn gyfeillgar ac yn gallu cyfathrebu yn drylwyr ac yn ffeithiol. Bydd hefyd yn amyneddgar, yn glên ac yn hyblyg ac yn gallu darbwyllo eraill. .**

| GWYBODAETH A PHROFIAD | Hanfodol / Dymunol | Sut fydd hyn yn cael ei asesu |
|---|---|---|
| Profiad o weithio'n uniongyrchol gyda chwsmeriaid i ddiwallu eu hanghenion, naill ai'n uniongyrchol neu trwy eu cyfeirio at eraill. | Essential | Y Cais / Cyfweliad |
| Profiad o gynnal a chadw tiroedd (torri gwair, chwynnu, ac yn y blaen). | Essential | Y Cais / Cyfweliad |
| Profiad o lanhau a chynnal safonau. | Essential | Y Cais / Cyfweliad |
| Gwybodaeth am egwyddorion Iechyd a Diogelwch (hynny yw codi a symud yn gorfforol, Rheoli Sylweddau Niweidiol i Iechyd, Defnyddio Offer Diogelu Personol, Ymwybyddiaeth am Dân, Rhoi Gwybod am Ddamweiniau a Digwyddiadau). | Desirable | Y Cais / Cyfweliad |
| Deall natur y berthynas rhwng Landlord Cymdeithasol a Thenant. | Desirable | Y Cais / Cyfweliad |
| **SGILIAU** | | |
| Rhifedd a Llythrennedd (Saesneg). | Essential | Y Cais / In tray exercise |
| Ysgogiad (i weithio heb oruchwyliaeth). | Essential | Y Cais / Cyfweliad |
| Cynllunio a blaenoriaethu (tasgau). | Essential | Ymarfer basged i mewn |
| Gallu gyrru * | Essential | Y Cais/ Tystysgrifau |
| Sgiliau Iaith Gymraeg | Desirable | Y Cais/ Cyfweliad |

| . | | |
|---|---|---|
| **SYLFAENOL - CARTREFI** | | |
| Sgiliau gwasanaethu cwsmeriaid a chanolbwyntio ar gwsmeriaid. | Essential | Y Cais / Cyfweliad |
| Gallu cydweithio a gweithio'n effeithiol mewn timau. | Essential | Y Cais / Cyfweliad |
| Sgiliau gwneud penderfyniadau a datrys problemau. | Essential | Y Cais / Cyfweliad |
| Canolbwyntio ar wella'n barhaus. | Essential | Y Cais / Cyfweliad |
| Sgiliau cyfathrebu effeithiol. | Essential | Y Cais / Cyfweliad |
| Cynnal a dangos nodweddion arweinyddiaeth. | Essential | Y Cais / Cyfweliad |
| Cyflawni canlyniadau'n llwyddiannus. | Essential | Y Cais / Cyfweliad |

**Mae Cartrefi Conwy yn ymrwymedig i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ein gweithgarwch.**

*** Lle bo anabledd yn atal hyn, byddwn yn adolygu'r gofyniad hwn gyda'r ymgeiswyr yn ystod y cyfweliad i weld a ellir ei addasu'n rhesymol.**